

Cymhelliant a Mentora i Aelodau Etholedig

Pwrpas

Mae Cymhelliant a Mentora yn rhan o ddarpariaeth ehangach, i gefnogi Aelodau Etholedig i gyflawni eu rolau yn effeithiol er mwyn gwneud y gorau dros bobl Gwynedd.

Mae'r gefnogaeth yma ar gael i bob aelod a bydd yn cael ei deilwrio i adlewyrchu anghenion unigol (e.e. rolau penodol megis Aelod Cabinet, Cadeiryddion, aelodau o Bwyllgorau penodol ayyb).

Cymhelliant a Mentora

Mae'r ddwy dechneg yma yn cael eu cydnabod yn fyd eang fel dulliau datblygol eithriadol o werthfawr ag effeithiol ar gyfer cefnogi datblygiad unigolion ym mhob maes.

Maent yn ddulliau sy'n seiliedig ar berthynas proffesiynol un i un sy'n galluogi unigolion i adlewyrchu ar brofiadau ac ystyried opsiynau ar gyfer gweithredu. Mae'r sesiynau yn dilyn strwythur pendant ac yn creu gofod i unigolion drafod materion yn agored mewn awyrgylch cyfrinachol a diogel. Yr unigolyn sy'n penderfynu ar ffocws y sesiynau ac ar y nifer sydd angen eu cynnal.

Yn syml iawn, mae **Cymhelliant** yn cefnogi unigolion i **adnabod datrasiadau eu hunain** tra mae **Mentora** yn cynnwys elfen o **arweiniad gan rhywun profiadol** yn y maes.

Bydd y ddarpariaeth Cymhelliant yn defnyddio cyfuniad o gymhellwyr Mewnol ac allanol sy'n gymwysedig. Bydd bydd y gefnogaeth Mentora yn cael ei ddarparu'n fewnol, gan Aelodau profiadol sydd wedi derbyn Hyfforddiant i fentora eraill.

CYMHELLIANT	MENTORA
<p>Beth yw Cymhelliant 1:1?</p> <p>Perthynas broffesiynol rhwng 2 berson.</p> <p>Cymhellwyr wedi eu cymhwyso yn broffesiynol. Mae'r Cymhellydd yn cefnogi'r Cymhellai (y person sydd yn cael ei gymell) i ystyried yr hyn sydd angen ei gyflawni, a chyrraedd datrasiadau ei hun. Mae hefyd yn gyfle i adlewyrchu ar brofiadau, creu eglurdeb a magu hyder.</p> <p>Sut fydd hyn yn digwydd (yn fras)</p> <ul style="list-style-type: none">Trafod anghenion datblygol i adnabod os yw cymhelliant yn briodolUnigolyn yn gwneud cais am gymhelliantParu gyda CymhellyddCynnal cyfarfod cychwynnolCytuno ar beth fydd eich ffocws, amllder sesiynauCynnal y sesiynauAdlewyrchu	<p>Beth yw Mentora?</p> <p>Perthynas broffesiynol rhwng 2 berson.</p> <p>Mentoriaid wedi eu hyfforddi yn broffesiynol. Y Mentor yn brofiadol mewn maes penodol a'r Mentai (y person sydd eisiau cael ei fentora) eisiau datblygu yn y maes yma. Bydd y Mentor yn defnyddio ei brofiad i alluogi y Mentai i ddatblygu ei hun.</p> <p>Sut fydd hyn yn digwydd (yn fras)</p> <ul style="list-style-type: none">Adnabod Mentoriaid addas o fewn grwpiau pleidiau neu o fewn arbenigedd (e.e. pwyllgor arbennig megis cynllunio)Datblygu'r unigolion yma fel Mentoriaid (Hyfforddiant gan Brifysgol Bangor)Adnabod aelodau (Mentai) sydd eisiau mentor<ul style="list-style-type: none">Aelodau newyddAelodau mewn rôl newyddAelodau i'w datblygu ar gyfer y dyfodolParu Mentor gyda MentaiCynnal cyfarfod cychwynnol i drafod anghenion datblygol a chytuno ar ffocwsCynnal y sesiynauAdlewyrchu

